# Hysbysiad Preifatrwydd

## Digarbon - Cronfa Ddatgarboneiddio ar gyfer Addysg Drydyddol yng Nghymru

Mae'r hysbysiad hwn yn nodi sut y byddwn ni, Llywodraeth Cymru, yn defnyddio eich data personol yn rhan o Digarbon, a'ch hawliau. Fe'i gwneir o dan Erthyglau 13 a/neu 14 o Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR).

### EICH DATA

#### Y data

Bydd Llywodraeth Cymru yn casglu'r data personol canlynol drwy ein partner cyflawni, Salix Finance Ltd (Salix), ar gyfer Digarbon:

- Enwau a manylion cyswllt (h.y. cyfeiriadau e-bost, rhifau ffôn) cyflogeion y bwriedir iddynt fod yn rhan o gyflawni Digarbon.
- Enwau a manylion cyswllt (h.y., cyfeiriadau e-bost, rhifau ffôn) y contractwyr a/neu'r ymgynghorwyr a ddefnyddir wrth gyflawni Digarbon.
- Cyfeiriad a manylion yr adeiladau ( (h.y. cyfeiriad busnes, cod post, Cyfeirnod Eiddo Unigryw) sy'n derbyn cyllid Digarbon.

#### Diben

Y diben(ion) yr ydym yn prosesu eich data personol ar eu cyfer yw:

- I asesu cymhwysedd ar gyfer cyllid o dan Digarbon.
- I fonitro cynnydd Digarbon.
- I reoli perfformiad Digarbon.
- Gwerthuso a datblygu polisïau'r cynllun, e.e. y broses ymgeisio, y broses asesu, ac ati.
- I werthuso neu ymchwilio i effeithiolrwydd Digarbon yn ei gyfanrwydd.

#### Sail gyfreithlon prosesu

Y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu eich data personol yw bod; a) ei bod yn angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg (gweler y diben uchod) a gyflawnir er budd y cyhoedd, pan fo prosesu yn angenrheidiol er mwyn i gyfrifoldeb Llywodraeth Cymru fonitro a gwerthuso effeithiolrwydd polisïau, mewn perthynas â'i dyletswydd ymddiriedol i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n gyfrifol, a swyddogaethau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gostyngiadau carbon o dan Ddeddf Newid Hinsawdd 2008.

O dan yr un sail gyfreithlon, gellir rhannu eich data gydag adrannau eraill y llywodraeth a chyrff cyhoeddus sydd â diddordeb dilys yn y data. Bydd hyn yn

caniatáu i'r cyrff hyn ddarparu cymorth pellach i dderbynwyr grantiau wrth gyflawni eu prosiectau a chydlynu gwaith datgarboneiddio ar draws y meysydd yn y sector cyhoeddus y mae ganddynt gyfrifoldeb amdanynt.

**Derbynwyr**

Bydd eich data personol yn cael ei gasglu gan Salix a'i rannu gyda Llywodraeth Cymru. Efallai y bydd eich data yn cael ei rannu ag adrannau eraill y llywodraeth, cyrff cyhoeddus a sefydliadau lle ystyrir ei fod yn briodol gan Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn caniatáu i'r cyrff hyn ddarparu cymorth pellach i gyflawni prosiectau a chydlynu gwaith datgarboneiddio ar draws y meysydd yn y sector cyhoeddus y mae ganddynt gyfrifoldeb amdanynt.

Bydd eich data personol hefyd yn cael ei rannu gennym ni gyda chontractwyr trydydd parti neu ymchwilwyr dethol, a/neu werthuso, lle maent wedi'u contractio a/neu eu hariannu gennym ni i ddarparu gwasanaethau penodol er mwyn hwyluso'r broses o gyflawni ein 'Diben' uchod. Rydym yn gofyn i'n contractwyr trydydd parti gymryd mesurau diogelwch priodol i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol yn unol â'n polisïau. Nid ydym yn caniatáu i'n contractwyr trydydd parti ddefnyddio eich data personol at eu dibenion eu hunain. Rydym ond yn caniatáu iddynt brosesu eich data personol at ddibenion penodol ac yn unol â'n cyfarwyddiadau.

Gan y bydd eich data personol yn cael ei storio ar ein seilwaith TG, bydd hefyd yn cael ei rannu gyda'n proseswyr data Microsoft ac Amazon Web Services.

**Cadw**

Byddwn ond yn cadw eich gwybodaeth bersonol cyhyd ag y bo angen i gyflawni'r dibenion y gwnaethom ei chasglu ar eu cyfer, gan gynnwys at ddibenion bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol neu gofnodi.

Bydd data personol yn parhau i gael ei brosesu am hyd at 5 mlynedd ar ôl i weithgareddau sy'n gysylltiedig â cham cymwys y Brifysgol gau neu ddod i ben, gan gynnwys gweithgareddau gwerthuso. Bydd data dienw (y tynnwyd yr holl ddata personol ohono'n ddiogel) yn cael ei gadw gan Lywodraeth Cymru am gyfnod amhenodol.

Lle nad yw data personol wedi'i gasglu gan destun y data

Darparwyd eich data personol i ni gan Salix. Mae Hysbysiad Preifatrwydd Salix ar gael yma. Casglwyd data yn ymwneud ag ymgeiswyr Digarbon trwy wefan Salix' a phroses ymgeisio Digarbon. Casglwyd data personol yn ymwneud â chontractwyr ac ymgynghorwyr drwy'r porth ymgeisio.

**TROSGLWYDDIADAU RHYNGWLADOL**

Efallai y bydd eich data personol yn cael ei drosglwyddo, ei storio a'i brosesu yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) gan fod Salix yn storio data yn yr Almaen a'r

Weriniaeth Tsiec ac mae rhywfaint o ddata'n cael ei brosesu yn yr Undeb Ewropeaidd (UE) trwy eu his-brosesydd. Lle mae hyn yn wir, bydd yn ddarostyngedig i amddiffyniad cyfreithiol cyfatebol trwy Gytundeb Digonolrwydd yr UE-DU.

**EICH HAWLIAU**

- Mae gennych hawl i ofyn am wybodaeth am sut mae eich data personol yn cael ei brosesu, a gofyn am gopi o'r data personol hwnnw.
- Mae gennych hawl i ofyn i gywiro unrhyw gamgymeriadau yn eich data personol yn syth.
- Mae gennych hawl i ofyn i'ch data personol gael ei ddileu os nad oes cyfiawnhad bellach dros eu prosesu.
- Mae gennych hawl i ofyn i unrhyw ddata personol anghyflawn gael ei gwblhau, gan gynnwys drwy ddatganiad atodol.
- Mae gennych yr hawl mewn rhai amgylchiadau (er enghraifft, wrth herio cywirdeb) i ofyn am gyfyngu ar brosesu eich data personol.
- Mae gennych hawl i wrthwynebu prosesu eich data personol lle caiff ei brosesu at ddibenion marchnata uniongyrchol.

I arfer eich hawliau, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

**MANYLION CYSWLLT**

Y rheolydd data ar gyfer eich data personol yw Llywodraeth Cymru. Gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru yn:

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
Cyfeiriad E-bost: Data.ProtectionOfficer@wales.gsi.gov.uk

Os ydych yn anhapus gyda'r ffordd yr ydym wedi trin eich data personol, ysgrifennwch at Swyddog Diogelu Data'r adran yn y lle cyntaf gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

**CWYNION**

Os ydych o'r farn bod eich data personol wedi cael ei gamddefnyddio neu ei gam-drafod, gallwch wneud cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n rheoleiddiwr annibynnol yn y DU. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow

Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 0303 123 1113

https://ico.org.uk/make-a-complaint/ mailto:casework@ico.org.uk

Ni fydd unrhyw gŵyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth yn effeithio ar eich hawl i geisio iawn drwy'r llysoedd.